# Manteision Bod Â Chyngor Tref Neu Gymuned

## Pam bod a chyngor cymuned o gwbl?

Yn ôl ymchwil annibynnol gan Brifysgol Aberystwyth yn 2003: “mae manteision cynghorau cymuned a thref yn fwy na’r costau cysylltiedig, ac mae dadl gref dros sefydlu cynghorau cymuned ym mhob rhan o Gymru”. Amlygodd yr astudiaeth 8 mantais allweddol o fod â chyngor cymuned:

- **Ymateb lleol:** Ar gyfartaledd yng Nghymru mae un cynghorydd cymuned neu dref ar gyfer pob 250 o drigolion, o gymharu ag un cynghorydd sir neu fwrdeistref sirol ar gyfer pob 2,320 o bobl. Mae’r rhan fwyaf o aelodau cynghorau tref a chymuned yn byw yn y cymunedau maen nhw’n eu gwasanaethu, ac mae llawer o gynghorau yn meithrin perthynas â’r trigolion trwy arolygon, cylchlythyrau a chyfarfodydd cyhoeddus. O ganlyniad, mae cynghorau tref a chymuned yn gallu ymateb yn well nag awdurdodau sirol i anghenion a lles eu cymunedau.

- **Cynrychioli buddiannau lleol:** Gall cynghorau tref a chymuned weithredu fel cynrychiolwyr buddiannau lleol pan fod angen ymdrin â chyrff allanol. Tra bod yn rhaid i gynghorau sirol gydbwyso anghenion a buddiannau nifer fawr o gymunedau, a’r rheiny’n gallu bod yn groes i’w gilydd, mae cynghorau tref a chymuned yn gyfrifol am un gymuned yn unig ac yn gallu dadlau’n ddilyffethair dros fuddiannau’r gymuned honno.

- **Hybu gweithgarwch cymunedol:** Mae cynghorau tref a chymuned yn bodoli ac yn gweithredu yn yr un cyd-destun ag y mae pobl yn cymdeithasu’n feunyddiol ynddo ac yn uniaethu ag o. Maen nhw’n gallu felly hwyluso gweithgareddau cymunedol, trefnu a noddi digwyddiadau cymunedol a hyrwyddo ysbryd a chynwysoldeb cymunedol. Mae rhan cynghorau tref a chymunedol yn y gwaith o gynorthwyo clybiau a sefydliadau lleol yn hanfodol. At ei gilydd maen nhw’n cyfrannu mwy na £1 miliwn y flwyddyn mewn grantiau i grwpiau

cymunedol, clybiau chwaraeon, elusennau a sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol – arian na fyddai ar gael i gymunedau heb y cynghorau.

- **Ychwanegu gwerth:** Mae cynghorau tref a chymuned yn gallu darparu gwasanaethau a chyfleusterau sy’n ychwanegol i rai’r cynghorau sir. Mae ganddyn nhw’r hyblygrwydd i wella’r ddarpariaeth gwasanaethau, i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol, a hyd yn oed i wneud pethau mor syml â chynnal arddangosfa flodau h.y. pethau nad ydyn nhw’n flaenoriaeth cyllidebol gan gyngor sir.

- **Atebolrwydd:** Mae awdurdod cynghorau tref a chymuned yn deillio o’u mandad etholiadol. Yn wahanol i swyddogion cymdeithasau cymunedol anstatudol, mae cynghorwyr tref a chymuned yn atebol i’r bobl leol ac o’r herwydd mae posib eu symud nhw o’u swyddi adeg etholiad. Ar ben hynny maen nhw’n atebol i bawb yn y gymuned, nid dim ond i griw o bobl sydd wedi talu tâl aelodaeth. Mae yna bwysau arnyn nhw felly i gynrychioli a chysylltu â phob rhan o’r gymuned, nid dim ond y rhai sy’n ymuno â chlybiau neu gymdeithasau lleol.

- **Sefydlogrwydd a pharhad:** Mae natur statudol cyfansoddiad cynghorau tref a chymuned yn sicrhau y byddan nhw’n parhau mewn bod. Yn wahanol i gymdeithasau cymunedol anstatudol, dydi cynghorau ddim yn dibynnu ar recriwtio aelodau nac ar arian grant. Mae modd felly i gynghorau tref a chymuned gynllunio ar gyfer tymor hirach ac ymgymryd â phrosiectau mwy.

- **Codi Trethi:** Mae gallu cynghorau tref a chymuned i greu archebiant ar gyfer treth cyngor yn un o’u pwerau pwysicaf. Er efallai bod cyfyngiadau ar eu gallu i godi cyllid o ffynonellau eraill, mae’r gallu i greu archebiant yn golygu bod eu hincwm yn weddol sefydlog (rhywbeth arall sy’n ategu’r pwynt ynglŷn â chynllunio hir dymor) ac yn fodd iddyn nhw godi arian o’r gymuned i’w ail-fuddsoddi er lles y gymuned.

- **Hyrwyddo gwasanaeth cyhoeddus:** Drwy fod yn gynghorydd tref neu gymuned mae cyfraniad unigolyn i wasanaeth cyhoeddus a llywodraeth leol yn fwy nag y buasai petai’n cymryd rhan mewn cymdeithas

gymunedol anstatudol. Mae cynghorau tref a chymuned yn 'faes hyfforddi' da i unigolion a allai fynd yn eu blaenau i fod yn gynghorwyr sir neu fwrdeistref sirol neu hyd yn oed yn gynrychiolydd cenedlaethol.

# Cyfarfodydd Cyngor Tref y Rhyl

Mae'r Cyngor Tref yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y mis (ac eithrio mis Awst) i drafod amryw o faterion yn ymwneud â'r dref. Mae'r Cyngor yn ymfalchïo yn y modd agored a thryloyw y mae o'n gweithio. Mae agenda a chofnodion pob cyfarfod i'w gweld yn y llyfrgell leol ac ar wefan y Cyngor ac mae rhwydd hynt i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd.

# Cyfrifon wedi eu Harchwilio a'u Cyhoeddi

Mae pob Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru yn gorfod cynnal archwiliad allanol blynyddol o'i gyfrifon. Yn ystod yr archwiliad mae'r cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Mae'r Cyngor hefyd yn penodi archwilydd allanol annibynnol i ategu atebolrwydd y Cyngor i'r cyhoedd.

# Ydi'r Cyngor yn Cynnig Gwerth am Arian?

Mae'r Cyngor yn rheoli ei arian yn ofalus iawn ac yn credu ei fod yn cynnig gwerth am arian i drigolion y dref. Ar gyfer 2015/16, cododd £491,346 trwy gyfrwng y Dreth Gyngor leol, yn cynrychioli cynnydd o 16.41% ar gyfer eiddo Band D yn y Rhyl. Cynnydd o ddim ond £7.57 fesul aelwyd.